CROESO I FAES GWERSYLLA PENRHOS
CYMDEITHAS YR IAITH GYMRAEG
Eisteddfod Môn 2017

Rhai canllawiau i gadw pawb yn ddiogel a hapus:

- Cost gwersylla yw £10 y pen y noson (neu £60 am yr wythnos).
- Mae hwn yn faes gwersylla i bawb o bob oed a phob cefndir. Dylid trin pawb, gan gynnwys y stiwardiaid, y swyddogion diogelwch a phentrefwyr Bodedern gyda chwrteisi.
- Cadw lefelau sŵn yn rhesymol trwy'r amser a dim sŵn uchel o gwbl ar ôl 9yh.
- Dim tân agored/barbeciw.
- Clirio pob sbwriel ar eich ôl.
- Cadw 2m rhwng pob pabell/carafán a 5m rhwng pob rhes o bebyll/carafanau.
- Gadael y cawodydd a'r toiledau yn y cyflwr y byddech chi'n disgwyl eu canfod.
- Bod yn barod i ddangos eich bod chi wedi cofrestru/talu am gael gwersylla pan fydd stiward yn gofyn.
- Os ydych angen help, cyngor neu os oes gennych unrhyw anawsterau tra'ch bod ar y safle, cysylltwch â stiwardiaid Cymdeithas yr Iaith Gymraeg ar:

  Bethan Roberts: 07791 423121

  Rhys Llwyd: 07834 556202

RHEOLIADAU AC AMODAU

1. Cyffredinol

- Mae cydymffurfio â rheolau a rheoliadau'r safle yn amod ar ddefnyddio'r safle. Gellid dod ag arhosiad y rhai a geir i fod yn torri rheolau'r safle i ben, fydd yn cynnwys gwahardd mynediad i'r safle a'i wasanaethau
- Ni fydd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg/Fferm Penrhos (CYIG/FfP) yn derbyn cyfrifoldeb am unrhyw anaf personol neu golled neu ddifrod i eiddo, oni bai y gellir profi bod CYIG/FfP yn gyfrifol drwy weithred neu esgeulustod ar gyfer yr anaf neu'r golled.
- Ni ddylai unrhyw hylif gael ei ryddhau ar dir y gwersyll.
- Disgwylir i berchnogion gadw anifeiliaid anwes ar dennyn bob amser, mae hon yn fferm weithredol.

2. Deiliadaeth

- Bydd y safle carafannau a Gwersyll ar agor o 10:00 yb dydd Sadwrn 5 Awst 2017 hyd
- at 11:00yb ar Ddydd Sul 13eg o Awst 2017. Bydd gwasanaethau fel toiledau a chawodydd yn dechrau cael eu cludo o'r safle fory dydd Sul 13eg o Awst.
- Gofynnwn i chi lenwi'r ffurflen gofrestru, gan restru nifer y bobl a fydd yn aros yn eich carafán / pabell.
- Os ydych angen help, cyngor neu os oes gennych unrhyw anawsterau tra'ch bod ar y safle, cysylltwch â stiwardiaid Cymdeithas yr Iaith Gymraeg ar:
  Bethan Roberts: 07791 423121
  Rhys Llwyd: 07834 556202
- Rhoddir band garddwrn i chi pan fyddwch yn cyrraedd rhaid i rhain gael eu harddangos drwy gydol eich arhosiad ar y Maes.
- Bydd stiwardiaid yn dewis lleoliad y carafannau

a phebyll, a dylai unrhyw gyfarwyddiadau a roddir ganddynt gael eu dilyn bob amser.
- Caniateir mynd a cheir ar y maes gwersylla yn unig i barcio a chasglu carafán – wedi hynny rhaid gadael ceir yn y maes parcio.
- Ni chaniateir i bobl a phabell i fynd a cheir i'r maes o gwbl.

3. Safleoedd
- Os ydych yn fregus, yn anabl neu os oes gennych gyflwr meddygol sy'n peri problemau symudedd, gadewch i ni wybod wrth gyrraedd. Yn anffodus gan ei fod yn safle dros dro mewn cae mae'r safle yn anodd iawn o ran mynediad i gadeiriau olwyn.
- Bydd y maes yn cael ei osod yn unol â'r canllawiau perthnasol ar gyfer safleoedd carafannau dros dro – dylid dilyn y cyfarwyddiadau a roddir gan y swyddogion o ran gofod rhwng pob carafan.
- Gallwch osod adlen neu babell (un bach ar gyfer un neu ddau o bobl) wrth ymyl y garafán ond rhaid i chi gadw o fewn eich safle a gadael o leiaf 4 medr rhwng eich pabell / carafán a'r un nesaf. Ni chaniateir i chi godi pabell fawr (deuluol) wrth eich carafán, oni bai eich bod yn archebu a thalu am safle ychwanegol. Ni chaniateir codi pabell neu gasebo y tu ôl i garafán.
- Carafannau: Rhaid i chi gadw o fewn eich safle, a chadw o leiaf 2 medr rhwng eich carafán / adlen a'r garafán / adlen nesaf. Ac yna 5 medr rhwng pob rhes.
- Pabell: Rhaid i chi gadw o fewn eich safle, a chadw o leiaf 2 metr rhwng eich pabell a'r babell nesaf. Ac yna 5 medr rhwng pob rhes o bebyll.
- Ni ddylid gosod carafan/pabell na gadael unrhyw rwystr yn y lonydd argyfwng sydd wedi eu marcio trwy'r maes. GLYNIR YN GAETH at y rheol hon, a bydd gofyn i chi i gael gwared ar unrhyw rwystrau sy'n torri'r rheol hon.

4. Talu
- Disgwylir i bawb naillai dalu ar-lein a dangos ebost cadarnhad ymlaen llaw neu dalu mewn arian parod wrth gyrraedd.
- Cost tocyn wythnos yw £60 y pen
- Cost y noson yw £10 y pen

5. Trydan
- Ni chaniateir defnyddio generaduron, na storio petrol / diesel ar y Maes Carafannau.

6. Gwasanaethau
- Bydd pob uned toiled a chawod ar agor 24 awr y dydd ond ni ellir gwarantu beth fydd eu cyflwr – bydd stiwardiaid yn eu monitro yn aml ond dim ond yn eu glanhau unwaith y dydd.
- Rydym yn gofyn am eich cydweithrediad er mwyn cadw'r ardal y toiledau a'r cawodydd yn lân. Rydym yn gofyn eich bod yn parchu'r cyfleusterau er lles pobl eraill sy'n aros ar y safle.
- Gwneir pob ymdrech i ddarparu'r cawodydd gorau posibl i ddefnyddwyr y safle, ond o bryd i'w gilydd, gall ddefnydd uchel gyfyngu ar y cyflenwad dŵr poeth. Rydym yn gofyn am eich cydweithrediad er mwyn gwneud defnydd o'r cawodydd lle bo modd yn ystod cyfnodau tawelach o'r dydd.
- Gofynnwn yn garedig i chi beidio â gadael unrhyw sbwriel wrth i chi adael.

7. Rheoli ac Ymddygiad
- Pe bai cwyn, siaredir gyda swyddogion y safle yn gyntaf gan ei bod yn bwysig eu bod yn cael y cyfle i ddatrys unrhyw anhawster tra eich bod ar y safle. Os nad oes modd datrys y broblem, cysylltwch gyda Swyddfa Cymdeithas yr Iaith yn dilyn y digwyddiad.
- Gofynnir i chi beidio â gwneud unrhyw sŵn afresymol o gwbl, yn enwedig wedi 9yh. Os y derbynnir cwyn ynglŷn â sŵn, rhoddir dau un rhybudd swyddogol, ac yna ystyrir y cytundeb wedi torri a bydd y sawl sy'n gyfrifol yn gorfod gadael y maes.
- Os bydd unrhyw un ar y safle diystyru'r rheolau hyn ac yn tarfu ar fwynhad pobl eraill, wedi derbyn rhybuddion swyddogol, bydd swyddogion y safle yn cadw'r hawl derfynu'r tenantiaeth ar unwaith heb rybudd o flaen llaw, neu gymryd unrhyw gamau eraill yn ôl yr angen.
- Os yw tenantiaeth yn cael ei derfynu gan ddefnyddio'r rheol hon, ni fydd unrhyw ffioedd yn cael eu had-dalu.

Iechyd a Diogelwch
- Cydymffurfiwch â cheisiadau'r swyddog a'r holl hysbysiadau a chyfarwyddiadau. Mae eich iechyd a diogelwch yn bwysig, felly os gwelwch yn dda, gofalwch am eich hun ac eraill ar y safle.
- Cymorth Cyntaf – mae offer cymorth cyntaf sylfaenol ar gael ym mhabell y stiwardiaid ar y maes carafán / pabell ac yn lleoliad y gigs.
- Os bydd argyfwng neu ddigwyddiad ar y safle, cysylltwch â stiward y safle neu swyddogion adeilad y clwb.

Tân

- Rhaid bod digon o le wedi ei gadw rhwng eich uned a'r nesaf, yn ôl cyfarwyddyd y swyddogion ar y Safle.
- Mae yna bwynt tân ger pabell y stiwardiaid sydd a diffoddydd tân dŵr a phowdwr yn ogystal ac uchelseinydd argyfwng.
- Os clywir yr uchelseinydd argyfwng y pwynt ymgynnull yw iard y fferm.
- Diffoddwyr tân personol - mae'n rhaid i chi fod â diffoddwr tân addas, gydag o leiaf 900 gram o bowdr. Yn ogystal, argymhellir yn gryf bod blanced dân ar gael yn yr ardal goginio.
- Rhaid i larwm mwg a brofwyd yn ddiweddar bod wedi ei osod ym mhob carafán.
- Ni chaniateir tanau agored a barbeciws o gwbl ar y safle.
- Os oes tân, symudwch bawb y tu allan ar unwaith a rhybuddio deiliaid y carafannau neu bebyll cyfagos. Ewch at y stiward agosaf i alw'r frigâd dân, neu ddefnyddio ffôn symudol i ffonio 999 neu 112 a seinio yr uchelseinydd argyfwng.

11. "Force Majeure"

- O dan yr amgylchiadau annhebygol bod tenantiaeth y Safle yn cael ei gwtogi neu'i ganslo oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i'n rheolaeth (e.e. tywydd difrifol, clwy'r traed a'r genau ac ati), ni roddir ad-daliadau. Fe'ch cynghorir i geisio yswiriant digonol ar gyfer amgylchiadau eithriadol o'r fath.

12. Yswiriant

- Mae'n anghyfreithlon peidio ag yswirio carafán os yw'n garafán deithiol neu'n garafán ôlgerbyd. Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau yswiriant addas a digonol ar gyfer eich carafán, adlen a chynnwys.
- Mae gan Cymdeithas yr Iaith Gymraeg yswiriant atebolrwydd cyhoeddus.

CYTUNDEB

Enw deiliad y babell/carafan:

Enwau unigolion eraill fydd yn aros yn y babell/carafan:

Llofnod:

Dyddiad: